British Red Cross | Y Groes Goch Brydeinig

# Canllawiau ar gyfer Adfer Cysylltiadau Teuluol i Blant Digwmni ac wedi eu Gwahanu

Olrhain Teuluoedd Rhyngwladol (OTRh)

Medi 2025

RESTORING FAMILY LINKS

# Olrhain Teuluoedd Rhyngwladol (IFT)

## Canllawiau ar gyfer Adfer Cysylltiadau Teuluol i Blant Digwmni ac wedi eu Gwahanu

### 1. Ein Polisi

Mae'r gwasanaeth Olrhain Teuluoedd Rhyngwladol (IFT) gan Y Groes Goch Brydeinig yn gweithio i adfer cyswllt rhwng aelodau teulu sydd wedi'u gwahanu gan wrthdaro arfog, trychineb, mudo neu sefyllfaoedd eraill sy'n gofyn am ymateb dyngarol. Trwy'r gwasanaeth hwn, mae'r Groes Goch Brydeinig mewn cyswllt rheolaidd gyda phlant digwmni ac wedi eu gwahanu sy'n dymuno dod o hyd i'w teulu dramor neu o fewn y DU, ac mae'r canllawiau yma wedi'u datblygu i sicrhau bod asiantaethau eraill sy'n gweithio yn y maes hwn yn ymwybodol o'n polisïau a'n gwasanaethau.

Nid yw IFT yn gallu cynnal ymholiadau olrhain ar ran trydydd parti (gweithwyr cymdeithasol, cyfreithwyr, awdurdodau eraill, asiantaethau ac ati) ac felly dim ond ceisiadau olrhain a wneir yn uniongyrchol gan blant fydd yn cael eu derbyn. Gall trydydd parti wneud atgyfeiriad at dimau IFT Y Groes Goch Brydeinig, a fydd wedyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r plentyn.

Bydd gweithwyr cymdeithasol yn cael eu hysbysu drwy gydol y broses olrhain teulu. Mae hyn yn cynnwys hysbysiadau pan gaiff plentyn ei atgyfeirio i'r gwasanaeth - boed trwy hunan-atgyfeiriad neu atgyfeiriad gan sefydliad arall - ac yn parhau hyd at ei ganlyniad.

Dim ond personél hyfforddedig Y Groes Goch Brydeinig sydd wedi cwblhau gwiriad Datgelu a Gwahardd manwl (DBS) yn llwyddiannus fydd yn cynnal cyfweliadau gyda phlant digwmni ac wedi eu gwahanu. Ymhellach, mae'r polisi hwn yn mynnu bod dau oedolyn yn bresennol yn ystod cyfarfodydd gyda phlant. Ar gyfer plant 15 oed ac iau, rhaid i oedolyn dibynadwy o'u dewis eu hebrwng i'r apwyntiadau.

### 2. Ein Hegwyddorion Canllaw

> Mae'r Groes Goch Brydeinig yn sefydliad dyngarol annibynnol, ac un o'i nodau traddodiadol yw helpu i adfer cyswllt rhwng aelodau teulu sydd wedi'u gwahanu gan wrthdaro, trychineb neu fudo.

> Er y bydd Y Groes Goch Brydeinig bob amser yn gwneud ei gorau i adfer cyswllt teuluol, nid yw'n dymuno cymryd rhan mewn unrhyw ffordd mewn achosion cyfreithiol neu weithdrefnau swyddogol eraill, er enghraifft, y rhai sy'n ceisio datrys statws mewnfudo neu loches.

> Nid yw'r Groes Goch Brydeinig ychwaith yn dymuno gweld ei ymdrechion dyngarol a chanfyddiadau perthnasol yn cael eu defnyddio mewn gweithdrefnau swyddogol o'r fath (er enghraifft, trwy gael unrhyw statws swyddogol neu bwysau tystiolaeth), boed gan unigolion neu sefydliadau'r llywodraeth.

> Er y bydd aelodau'r Groes Goch Brydeinig sy'n ddarostyngedig i awdurdodaeth llysoedd perthnasol y Deyrnas Unedig yn cydymffurfio'n naturiol ag unrhyw gyfarwyddiadau barnwrol sy'n effeithio arnynt, mae'r Groes Goch Brydeinig am wneud yn glir bod ei swyddogaeth olrhain yn gwbl ar wahân i weithdrefnau swyddogol, gan gynnwys proses loches y DU, ac yn cael ei chynnal yn unol â'i hegwyddorion a'i harferion hir-sefydlog ei hun.

Nid yw'r Groes Goch Brydeinig yn bwriadu i unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'n gwasanaeth olrhain neu achosion penodol cysylltiedig gael unrhyw statws ffurfiol neu bwysau tystiolaeth, fel y nodir yn yr ymwadiad presennol sy'n ymddangos ar ein deunyddiau olrhain:

***Yn ôl tyb Y Groes Goch Brydeinig, ni ddylid ystyried y ffaith bod Cais Olrhain yn cael ei agor neu beidio fel tystiolaeth bod y person sy'n cael ei geisio ar/ddim ar goll, nac yn wir fod y person yn/ddim yn bodoli. Ni ddylid ystyried agor Cais Olrhain fel tystiolaeth gredadwy o ymdrechion i gysylltu ag aelodau'r teulu, nac ychwaith y dylid ystyried y penderfyniad i beidio ag agor cais o'r fath fel diffyg tystiolaeth gredadwy. Yn yr un modd, ni ddylid ystyried cais i drosglwyddo Neges Groes Goch, na'r methiant i wneud cais o'r fath, fel tystiolaeth o'r berthynas rhwng yr anfonwr a'r derbynnydd, nac o statws yr anfonwr neu'r derbynnydd.***

## 3. Ein Nod

Ein nod yw sicrhau bod pawb sydd angen gwasanaethau olrhain yn gallu cael mynediad ato mewn amgylchedd diogel, cefnogol a chyfrinachol. Rydym yn cydnabod bod llawer o'r plant yn teimlo pryderon ynghylch dechrau ymholiad gyda ni, gan ofni y gallai gael goblygiadau ar gyfer diogelwch eu teulu. Rydym hefyd yn cydnabod y gallant fod â'r argraff y gallai cychwyn ymholiad, neu ei ganlyniad ddylanwadu ar ganlyniad eu cais am loches. Ni all Y Groes Goch roi gwarantau ynghylch canlyniadau ymholiadau olrhain. Yn wir, nid yw methiant i olrhain person yn golygu o reidrwydd bod y person wedi marw neu'n anolrheiniadwy – yn hytrach mae'n golygu bod y person yn anolrheiniadwy yn y cyfnod penodol hwnnw gyda'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymholwr. Ein nod, felly, yw sicrhau bod plant sy'n ddigwmni ac wedi'u gwahanu yn gallu gwneud penderfyniadau annibynnol a gwybodus ynghylch a ddylent neu beidio ddechrau ymholiad olrhain rhyngwladol gyda ni.

## 4. Ein Gweithdrefnau

Er mwyn sicrhau bod ein gweithdrefnau yn cadw at arferion sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth o drawma wrth weithio gyda phlant, rydym wedi darparu dadansoddiad cynhwysfawr o'n dull gweithredu. Mae'r trosolwg manwl hwn yn amlinellu'r camau a'r ystyriaethau a gymerwn i gefnogi a diogelu lles plant drwy gydol ein rhyngweithiadau:

### Cam 1: Y cyfarfod cychwynnol

Yn ystod y cyfarfod cychwynnol, a fydd bob amser yn cynnwys dau oedolyn, bydd staff lleol Swyddfa Rhanbarth Y Groes Goch Brydeinig yn trafod y pwyntiau canlynol gyda'r plentyn:

> **Cyfrinachedd a Diogelu Plant –** bydd y plentyn yn cael gwybod bod trafodaethau yn ystod y cyfarfod cychwynnol, ac unrhyw gyfarfodydd dilynol, yn gyfrinachol i dimau olrhain Y Groes Goch Brydeinig. Fodd bynnag, os bydd y plentyn yn datgelu gwybodaeth ar unrhyw adeg yn ystod y broses sy'n achosi i'r cyfwelydd gredu bod y plentyn hwnnw neu blentyn arall mewn perygl o niwed, dyletswydd a chyfrifoldeb personél Y Groes Goch Brydeinig yw gweithredu'r polisi a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc.

> **Oedolyn dibynadwy –** Oedolyn dibynadwy yw person y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei nodi fel rhywun y maent yn teimlo'n ddiogel o'i gwmpas ac y gall ddibynnu arnynt, gyda ffiniau clir, ac a fydd yn gwrando ar eu hanghenion a'u dymuniadau heb farn, rhagfarn na disgwyliad. Nid oes rhaid i oedolyn dibynadwy priodol fod yn rhywun sydd wedi'i neilltuo'n benodol i'r person ifanc, oni bai bod y plentyn yn dewis y person hwnnw. Mae hyn hefyd yn berthnasol os nad yw plentyn yn gallu nodi oedolyn dibynadwy addas i'w hebrwng drwy'r broses.

> Ar gyfer plant dan 11 oed, **dylai hyn fod yn ofalwr maeth neu'n weithiwr cymdeithasol**.

> Os yw'r plentyn rhwng 11 a 15 oed, rhaid cael ei hebrwng gan oedolyn dibynadwy yn ystod y cyfarfod.

> Os yw'r plentyn yn 16 oed neu'n hŷn, fe'i hannogir i ddod ag oedolyn dibynadwy i'w gefnogi cyn ac ar ôl y cyfarfod.

> **Cydsyniad Gwybodus** – rhaid i'r plentyn roi cydsyniad i barhau â'r ymholiad olrhain. Er mwyn sicrhau hyn, rhoddir gwybodaeth fanwl a dibynadwy am y broses mewn iaith y maent yn ei ddeall. Ni ddylai'r plentyn fod yn dangos arwyddion o drawma neu ofid ar yr adeg y maent yn rhoi cydsyniad, a rhaid i'r gwirfoddolwr neu'r aelod staff fod yn fodlon nad yw'r plentyn wedi'i orfodi, ei annog na'i fygwth i gytuno i gynnal yr olrhain.

> **Gwybodaeth sydd ei angen** – rhoddir esboniad i'r plentyn am ba fath o wybodaeth sydd ei angen a pha fath o ffurflenni a ddefnyddir i gynnal ceisiadau olrhain/neges.

> **Y Broses** – bydd y plentyn yn cael gwybod y bydd yr wybodaeth a roddir ganddynt ac sydd wedi'i chynnwys yn y ffurflen olrhain/neges yn cael ei rhannu gyda'n Tîm olrhain cenedlaethol ac yna'n cael ei anfon dramor i'n cydweithwyr ar Bwyllgor Rhyngwladol

Y Groes Goch (ICRC), Cymdeithasau Cenedlaethol eraill Y Groes Goch/Y Cilgant Coch neu awdurdodau statudol yn y DU.

- Bydd rôl staff a gwirfoddolwyr Y Groes Goch a'r Cilgant Coch dramor yn cael ei hesbonio i'r plentyn. Bydd y plentyn yn cael gwybod y gall y cydweithwyr tramor hyn, fel rhan o'r broses olrhain a neges, ymweld â'r cyfeiriad olaf a roddwyd ac unrhyw gyfeiriadau cysylltiadau eraill a roddwyd yn y ffurflen olrhain. Trafodir yr opsiynau cydsyniad am bwy y gellir neu na ellir cysylltu â nhw i gynorthwyo gyda'r ymholiad olrhain gyda'r plentyn, ynghyd â'r risgiau penodol. Os bydd yr ymholiad olrhain yn parhau, nodir unrhyw bryderon penodol sydd gan y plentyn a'u rhannu gyda'n partneriaid Y Groes Goch/Cilgant Coch dramor (er enghraifft, pryderon diogelwch ar gyfer eu teulu).
- Bydd yn cael ei egluro nad oes terfyn amser ar unrhyw ymholiad ac y gall gymryd amser hir, ond bydd canlyniad yr ymholiad bob amser yn cael ei gyfathrebu'n uniongyrchol â'r plentyn.
- **Cyfarfod Canlyniad** – Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd ar ôl i'r gweithiwr cymdeithasol gael gwybod am y canlyniad a phan fydd manylion y person(au) a leolwyd wedi eu rhannu gyda'r gweithiwr cymdeithasol. Mae hyn yn berthnasol boed y cysylltiadau yn y DU neu dramor.
- Mae'n bwysig sicrhau bod system gefnogaeth ar gael i'r plentyn i'w helpu i ymdopi â'r newyddion a roddir iddynt, yn enwedig os yw'n newyddion am farwolaeth, er ein bod yn cydnabod y dylai cefnogaeth fod ar gael ar gyfer unrhyw ganlyniad, h.y. dim olrhain, teulu wedi'i olrhain ac ati. Mae hyn oherwydd y gall y plentyn gael ei daflu i gyflwr emosiynol dwys waeth beth yw canlyniad yr olrhain.
- Yn dilyn y cyfarfod, byddwn yn trosglwyddo unrhyw fanylion cyswllt aelod(au) o'r teulu neu bobl a all ddarparu gwybodaeth am deulu'r plentyn i'r Gweithiwr Cymdeithasol yn uniongyrchol.
- **Cyfnod Myfyrio** – Ar ddiwedd y cyfarfod cyntaf, rhoddir cyfle i'r plentyn ofyn cwestiynau neu fynegi unrhyw bryderon ac yna ystyried a yw'n dymuno parhau â'r cais olrhain. Gallai'r plentyn elwa o gyfnod myfyrio cyn parhau ag ymholiad neu dynnu'n ôl o'r broses. Efallai y bydd angen iddynt ystyried a ydynt yn cydsynio i'r ymholiad olrhain ddigwydd neu a ydynt yn ymateb i geisiadau trydydd parti. Os yw'r plentyn yn dymuno parhau â'r ymholiad, caiff ei gwahodd i fynychu cyfarfod olrhain wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy fideo (gyda chyfieithydd, os oes angen) er mwyn cwblhau'r ffurflenni olrhain/neges. Efallai y bydd angen i'r plentyn fynychu mwy nag un cyfarfod olrhain.

### Cam 2: Cyfweliad Olrhain

Os yw'r plentyn yn dymuno parhau â'r ymholiad, trefnir cyfweliad olrhain er mwyn cwblhau'r ffurflenni olrhain/neges. Bydd dau oedolyn bob amser yn bresennol, boed wyneb yn wyneb neu'n rhithwir.

Yn ystod y cyfarfod hwn, gofynnir i'r plentyn ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen i fynd ar drywydd yr ymholiad olrhain. Er enghraifft, enwau'r person sy'n cael ei geisio, eu

manylion cyswllt, cyfeiriadau presennol neu flaenorol, cyflogaeth neu addysg bresennol neu flaenorol (fel sy'n briodol) ac unrhyw wybodaeth arall a allai gynorthwyo i leoli'r person sy'n cael ei geisio.

Gall natur y cyfarfod hwn beri rhai heriau emosiynol i'r plentyn. Efallai y bydd angen cefnogaeth arnynt i baratoi ar gyfer y cyfarfod, o ran lles emosiynol a'r manylion ymarferol o fynychu. Efallai y bydd angen cefnogaeth asiantaethau allanol neu oedolion dibynadwy arnynt i'w helpu i ymdopi â'r materion a godir gan y cyfarfod.

Os oes angen cyfieithydd, bydd angen rhoi rhybudd ymlaen llaw er mwyn trefnu. Mae angen rhybudd tebyg os bydd apwyntiad yn cael ei ganslo, er mwyn peidio â chodi costau.

### Cam 3: Canlyniad yr ymholiad

> Pan fydd canlyniad i ymholiad, bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn cael gwybod yn gyntaf, cyn rhannu manylion y canlyniad gyda'r plentyn. Bydd unrhyw fanylion cyswllt aelod(au) o'r teulu neu bobl a all ddarparu gwybodaeth hefyd yn cael eu rhoi i'r Gweithiwr Cymdeithasol yn uniongyrchol ar ôl y cyfarfod gyda'r plentyn er mwyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ddiogelu'r plentyn a hwyluso cyswllt.

> Os canfyddir aelod(au) o'r teulu, yna efallai y bydd y plentyn yn derbyn Neges Groes Goch gan yr aelod teulu dramor. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, a'r gwledydd dan sylw, gall y plentyn barhau i gynnal cyswllt trwy Negeseuon Groes Goch neu'n annibynnol dros y ffôn neu drwy ddulliau eraill, fel sy'n briodol.

> Mae'n bwysig nodi nad yw methiant i olrhain aelod o'r teulu yn golygu bod yr aelod hwnnw wedi marw neu na ellir ei olrhain trwy sianeli eraill: gellir dehongli'r canlyniad yn unig fel tystiolaeth nad oedd modd olrhain yr aelod teulu drwy'r Groes Goch Brydeinig, ICRC neu Gymdeithasau Cenedlaethol eraill Y Groes Goch/Cilgant Coch, a gall hyn fod am unrhyw nifer o resymau.

Am ragor o wybodaeth a manylion am ein gwasanaeth Olrhain Teuluoedd Rhyngwladol, ewch i www.redcross.org.uk/trace